

Cod Ymarfer ar gyfer Lles Da Byw:

IEIR DODWY

Drafft ymgynghori

CONSULTATION

Cynnwys

Rhagair.....	1
Cyflwyniad	5
Cod Ymarfer er Lles leir Dodwy.....	7
Crefft Ffermio Da Byw a Staffio	8
Magu leir Dodwy.....	9
Archwilio.....	9
Trin leir Sâl/Tost ac leir wedi'u Hanafu.....	10
Cadw cofnodion.....	11
Bwydo a dyfrio	12
Rhyddid i Symud	14
Cytiau	14
Systemau heb gewyll.....	15
Cewyll Gwell.....	17
Yr amgylchedd.....	18
Awyru a thymheredd.....	18
Golau.....	18
Sarn (Gwasarn/Llaesodr - <i>litter</i>).....	19
Sŵn.....	20
leir mewn rhedfeydd agored (libart - <i>run</i>).....	20
Offer awtomataidd neu fecanyddol.....	21
Anffurfio.....	22
GWEITHDREFNAU BRIDIO	23
Dal Adar a'u Cludo	23
Atodiad 1 - Darpariaethau Cyfreithiol ar gyfer Wyaiau a Chywion.....	27
Atodiad 2 - Canllaw.....	28
Atodiad 3 - Pigo Pluf.....	29

Rhagair

Nid yw'r rhagair hwn yn rhan o'r Cod; ei ddiben yw esbonio pwrpas y Cod. Nid yw'r testun cyfreithiol mewn blychau yn y ddogfen hon chwaith yn rhan o'r Cod; ei ddiben yw tynnu'ch sylw at y ddeddfwriaeth berthnasol. Y gyfraith fel y mae ar y dyddiad y cyhoeddir neu yr ailargreffir y Cod hwn yw'r testun yn y blychau (trowch at y cefn i gael yr wybodaeth hon). Dylech gofio y gall unrhyw ofynion cyfreithiol a welwch fan hyn newid. Dylech gadarnhau eu bod yn ddatganiadau cywir o'r gyfraith fel y mae.

Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) a Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn rhoi Cyfarwyddeb 98/58/EC y Cyngor sy'n ymdrin ag amddiffyn anifeiliaid sy'n cael eu ffermio ar waith ac yn rhoi Cyfarwyddeb 1999/74/EC sy'n nodi'r rheolau gofynnol ar gyfer amddiffyn ieir dodwy.

CONSULTATION

Mae Rheoliad 4 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a ¹ Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan:

(1) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am anifail a ffermir gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod yr amodau y mae'r anifail yn cael ei fridio neu ei gadw odanynt yn cydymffurfio ag Atodlen 1.

(2) Wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd ym mharagraff (1), rhaid i berson sy'n gyfrifol am anifail a ffermir roi sylw i'w—

- (a) rhywogaeth;
- (b) gradd ei datblygiad;
- (c) ei addasiad a'i ddofiad; ac
- (d) ei anghenion corfforol ac etholegol yn unol ag arferion da a gwybodaeth wyddonol.

Mae Rheoliad 6 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd) yn datgan:

(1) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am anifail a ffermir —

(a) peidio â gofalu am yr anifail onid yw'n gyfarwydd â'r cod ymarfer perthnasol a bod y cod ar gael iddo tra'n gofalu am yr anifail; a

(b) cymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw person a gyflogir ganddo, neu a gymerir i weithio ganddo, yn gofalu am yr anifail oni bai bod y person arall hwnnw—

- (i) yn gyfarwydd ag unrhyw god ymarfer perthnasol;
- (ii) bod y cod ar gael iddo tra'n gofalu am yr anifail; a
- (iii) ei fod wedi cael hyfforddiant ac arweiniad ar y cod hwnnw.

(2) Yn yr adran hon, ystyr "cod ymarfer perthnasol" yw cod ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 14 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 neu'r cod lles statudol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968 sy'n ymwneud â'r rhywogaeth o anifail a ffermir y mae person yn gofalu amdano.

Mae'n drosedd o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 i achosi dioddefaint diangen i anifail sydd o dan reolaeth dyn. Er nad yw'n ofyn cyfreithiol i ddilyn cod, gallai peidio â'i ddilyn gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth pan gaiff rhywun ei erlyn am achosi poen ddiangen i dda byw.

Mae Adran 9(1) Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn ² datgan:

1) a person commits an offence if he does not take such steps as are reasonable in all the circumstances to ensure that the needs of an animal for which he is responsible are met to the extent required by good practice.

Mae Adran 9(2) Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn datgan:

¹ [Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir \(Cymru\) 2007 \(fel y'i diwygiwyd\)](#)

² [Deddf Lles Anifeiliaid 2006](#)

For the purposes of this Act, an animal's needs shall be taken to include -

- (a) its need for a suitable environment,
- (b) deiet addas,
- (c) cyfle i ymddwyn yn naturiol,
- (d) any need it has to be housed with, or apart from, other animals, and
- (e) its need to be protected from pain, suffering, injury and disease.

Mae Adran 10 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn datgan:

(1) If an inspector is of the opinion that a person is failing to comply with section 9(1), he may serve on the person a notice which –

- (a) states that he is of that opinion,
- (b) specifies the respects in which he considers the person is failing to comply with that provision,
- (c) specifies the steps he considers need to be taken in order to comply with the provision,
- (d) specifies a period for the taking of those steps, and
- (e) explains the effect of subsections (2) and (3).

(2) Where a notice under subsection (1) (“an improvement notice”) is served, no proceedings for an offence under section 9(1) may be instituted before the end of the period specified for the purposes of subsection (1)(d) (“the compliance period”) in respect of –

- (a) the non-compliance which gave rise to the notice, or
- (b) any continuation of that non-compliance.

(3) If the steps specified in an improvement notice are taken at any time before the end of the compliance period, no proceedings for an offence under section 9(1) may be instituted in respect of –

- (a) the non-compliance which gave rise to the notice, or
- (b) any continuation of that non-compliance prior to the taking of the steps specified in the notice.

(4) An inspector may extend, or further extend, the compliance period specified in an improvement notice.

Nid yw gofynion Cyfarwyddeb y Cyngor 1999/74/EC yn ymwneud â sefydliadau sydd â llai na 350 o ieir dodwy nag â sefydliadau sy'n magu ieir bridio a dodwy. Ond bydd yn rhaid i'r sefydliadau hynny gydymffurfio â gofynion perthnasol Cyfarwyddeb y Cyngor 98/59/EC.

Yn ystod eu harchwiliadau lles ar y fferm, bydd archwilwyr yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) ac Awdurdodau Lleol yn edrych a yw'r ffermwr yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac â'r Cod. Bydd yn drosedd peidio â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a welwch yn y blychau yn y Cod hwn sy'n ymwneud â lles anifail.

Mewn achosion sy'n mynd i'r llys, byddai p'un a ydych wedi cydymffurfio neu beidio â'r Cod yn cael ei ddefnyddio i helpu i benderfynu a ydych yn euog neu beidio.

Mae yna ddeddfwriaeth a gofynion eraill nad ydyn nhw'n ymwneud â lles anifeiliaid ac nad ydyn nhw'n rhan o'r Cod y dylech fod yn gwybod amdany'n nhw a chydymffurfio â nhw.

Mae Adran 4 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn dweud:

4 (1) A person commits an offence if—

- (a) an act of his, or a failure of his to act, causes an animal to suffer,
- (b) he knew, or ought reasonably to have known, that the act, or failure to act, would have that effect or be likely to do so,
- (c) the animal is a protected animal, and
- (d) the suffering is unnecessary.

(2) A person commits an offence if—

- (a) he is responsible for an animal,
- (b) an act, or failure to act, of another person causes the animal to suffer,
- (c) he permitted that to happen or failed to take such steps (whether by way of supervising the other person or otherwise) as were reasonable in all the circumstances to prevent that happening
- (d) the suffering is unnecessary.

(3) The considerations to which it is relevant to have regard when determining for the purposes of this section whether suffering is unnecessary include—

- (a) whether the suffering could reasonably have been avoided or reduced;
- (b) whether the conduct which caused the suffering was in compliance with any relevant enactment or any relevant provisions of a licence or code of practice issued under an enactment;
- (c) whether the conduct which caused the suffering was for a legitimate purpose, such as—
 - (i) the purpose of benefiting the animal, or
 - (ii) the purpose of protecting a person, property or another animal;
- (d) whether the suffering was proportionate to the purpose of the conduct concerned;
- (e) whether the conduct concerned was in all the circumstances that of a reasonably competent and humane person.

(4) Nothing in this section applies to the destruction of an animal in an appropriate and humane manner.

Cyflwyniad

1. Bwriad y Cod hwn yw annog pawb sy'n gofalu am ieir dodwy i gadw at safonau gofal uchel. Heb arfer crefft ffermio da, ni fydd byth modd diogelu lles anifeiliaid. Bydd dilyn yr argymhellion hyn yn helpu'r rheini sy'n cadw ieir i gynnal y safonau sydd eu hangen i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Dylai'r rheini sy'n gofalu am yr ieir gadw at y gofynion canlynol:

- Cynllunio a rheoli gofalgar a chyfrifol;
 - Ffermio medrus, gwybodus a chydwybodol;
 - Dylunio amgylchedd addas;
 - Trafod a chludo ystyriol;- a lladd heb greulondeb.
2. Ystyrir lles ieir dodwy o fewn fframwaith a ddatblygwyd gan y Cyngor Lles Anifeiliaid Fferm (FAWC), y cyfeirir ato fel y "Pum Rhyddid". Y pum rhyddid yw'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer asesu lles anifeiliaid o fewn unrhyw system, ynghyd â'r camau sydd eu hangen i ddiogelu'u lles o fewn cyfyngiadau diwydiant da byw effeithiol. Dylen nhw gael eu hystyried ar y cyd â thair elfen hanfodol FAWC o grefft ffermio da byw.

Dyma'r Pum Rhyddid:

- 1 **RHYDDID RHAG NEWYN A SYCHED** – drwy allu mynd yn hwylus at ddŵr ffres a chael deiet sy'n cynnal iechyd ac egni;
- 2 **RHYDDID RHAG ANGHYSUR** – drwy ddarparu amgylchedd priodol gan gynnwys cysgod a man gorffwys cysurus;
- 3 **RHYDDID RHAG POEN, ANAF NEU GLEFYD** – drwy eu hatal neu drwy gynnal diagnosis a rhoi triniaeth yn gyflym;
- 4 **RHYDDID I YMDDWYN YN NORMAL** – drwy ddarparu digon o le, cyfleusterau priodol a chwmni anifeiliaid eraill o'r un math; a
- 5 **RHYDDID RHAG OFN A GOFID** – drwy ddarparu amodau a'u trin mewn ffordd sy'n osgoi dioddefaint meddyliol.

Tair elfen hanfodol crefft ffermio da byw:

- 1 **GWYBOD AM HWSMONAETH ANIFEILIAID.** Gwybodaeth dda am fioleg anifeiliaid fferm a'r gofal sydd eu hangen arnyn nhw, gan gynnwys sut orau i ddiwallu eu hanghenion ym mhob sefyllfa.
 - 2 **SGILIAU HWSMONAETH** Prawf bod gennych sgiliau arsylwi ar anifeiliaid a gofalu amdany'n nhw a sgiliau eu trafod a'u trin a darganfod a datrys problemau.
 - 3 **RHINWEDDAU PERSONOL** Yn deall anifeiliaid ac ag empathi â nhw, ymroddiad ac amynedd.
3. Ni ddylai neb gadw na sefydlu uned ieir dodwy onid oes modd diogelu lles yr holl adar. Gellir gwneud hyn drwy sicrhau bod yr adeiladau a'r offer, a medrau a gallu

ceidwaid heidiau yn briodol ar gyfer y system hwsmonaeth ac ar gyfer nifer yr adar sydd i gael eu cadw.

4. Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol ar les anifeiliaid yn gymwys i berchenogion yn ogystal ag i unrhyw berson sy'n gofalu am yr adar ar eu rhan, ble bynnag y mae'r adar yn cael eu cadw. Gallai protocol ysgrifenedig fod yn ddefnyddiol i sicrhau bod pob parti yn glir ynghylch ei gyfrifoldebau am les yr ieir. Er hynny, bydd yn dal gofyn cadw at y rhwymedigaethau cyfreithiol.
5. Dylech roi sylw i ystyriaethau iechyd a lles yn ogystal â chynhyrchiant wrth ddewis y straen o iâr at ddiben neu system gynhyrchu benodol. Dylai'ch ieir dodwy darddu o raglenni bridio cytbwys sy'n ystyried pob agwedd ar iechyd, lles a chynhyrchiant. Dylid sicrhau bod pob penderfyniad rheoli a system gynhyrchu yn hyrwyddo iechyd, lles a chynhyrchiant yr ieir.
6. Mae'r gofynion cyfreithiol i'w gweld yn y blychau testun. **Mae'r cod hwn yn gymwys yng Nghymru yn unig a'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n ei gyhoeddi.**

CONSULTATION

Cod Ymarfer er Lles Ieir Dodwy

7. Mae'r cod hwn (sy'n gymwys yng Nghymru yn unig) yn gymwys i ieir dodwy sy'n cael eu cadw mewn systemau cynhyrchu amrywiol. At ddibenion y cod hwn, ystyr "ceidwad" yw perchennog yr adar a'r person sy'n gyfrifol am ofalu amdany'n nhw. Mae'r argymhellion hyn yn ymwneud ag ieir dodwy ym mhob math o system hwsmona.
8. Rhaid i linach yr ieir dodwy a ddewisir fod yn addas ar gyfer y system gynhyrchu.

Mae Atodlenni 2, 4, a 5 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn gosod safonau ychwanegol ar gyfer diogelu ieir dodwy.

Nid ydynt yn effeithio ar sefydliadau sydd â llai na 350 o ieir dodwy.

Er hynny, bydd y sefydliadau hyn yn dal yn gorfod cadw at ofynion perthnasol Cyfarwyddeb 98/58/EC, sydd wedi'i rhoi ar waith yng Nghymru drwy Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Cymru) 2007.

Mae rheoliad 2 (1) o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Cymru) 2007 yn darparu'r diffiniadau canlynol:

"iâr ddodwy" - iâr o'r rhywogaeth *Gallus gallus* sydd wedi cyrraedd oed dodwy ac sy'n cael ei chadw i gynhyrchu wyau nad oes bwriad iddynt ddeor.

sarn (gwasarn/llaesodr - litter) - mewn cysylltiad ag ieir dodwy, unrhyw ddeunydd hyfriw (hawdd ei chwalu) sy'n galluogi'r adar hynny i ddiwallu eu hanghenion ymddygiad;

nyth - lle ar wahân i ddodwy, ni chaiff ei lawr gynnwys netin weiar all ddod i gysylltiad â'r aderyn, ar gyfer iâr unigol neu grŵp o ieir;

lle y gellir ei ddefnyddio - mewn cysylltiad ag ieir dodwy, y lle a ddefnyddir gan ieir dodwy, heblaw'r nyth, sydd o leiaf 30cm o led gyda llawr ar ogwydd heb fod yn fwy na 14% ac sydd o leiaf 45cm o uchder;

Crefft Ffermio Da Byw a Staffio

Mae Paragraff 1 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

1. Rhaid i anifeiliaid dderbyn gofal gan nifer digonol o staff sy'n meddu ar y gallu, yr wybodaeth a'r hyfedredd proffesiynol priodol.
9. Mae'n hanfodol fod digon o bersonél cymwys a brwdfrydig yn cael eu cyflogi i wneud pob tasg sy'n angenrheidiol. Dylai'r staff gael eu rheoli a'u goruchwyllo'n dda, fod yn hollol gyfarwydd â'r tasgau y bydd gofyn iddynt eu gwneud ac yn gymwys wrth ddefnyddio unrhyw offer.
10. Dylai pob ceidwad ddangos ei fod yn deall anghenion lles a bioleg sylfaenol yr ieir, ynghyd â dangos ei fod yn gallu edrych ar eu hôl ymhob sefyllfa ragweladwy, cyn cael cyfrifoldeb am haid. Bydd gan geidwad da agwedd drugarog a thosturiol, y gallu i ragweld ac osgoi problemau lles posibl, a'r gallu i adnabod y problemau lles hynny sy'n codi ac ymateb iddynt yn brydlon.
11. Dylai staff gan gynnwys y rhai hynny a gyflogir gan contractwyr, gael hyfforddiant priodol. Mae hyn yn gofyn am fagu sgiliau penodol y medrir eu meithrin drwy weithio ar y fferm, gweithio gyda pherson profiadol, neu drwy ddilyn cwrs sy'n cael ei gynnis gan ddarparwydd hyfforddiant addas. Dylai pob ceidwad brofi ei fod yn gymwys ac yn meddu ar ddealltwriaeth cyn cael bod yn gyfrifol am ieir dodwy. Dylai hyfforddiant barhau drwy gydol y cyfnod cyflogaeth, a dylid mynd ar gyrsiau gloywi addas yn gyson i gynnal medrusrwydd. Os yn bosibl, dylai'r hyfforddiant arwain at gydnabyddiaeth ffurfiol o allu.
12. Yn ogystal â gallu adnabod ymddygiad normal ac iechyd da, dylai'r rheini sy'n gweithio gydag ieir dodwy allu adnabod arwyddion salwch, clefyd neu broblemau iechyd all godi.
13. Os oes angen cynnal unrhyw dasgau arbenigol, er enghraifft rhoi moddion neu ddifa heb greulondeb, yna dylid rhoi hyfforddiant penodol. Os nad yw hynny'n bosibl, dylid defnyddio contractwr cymwys sy'n defnyddio staff cymwys wedi'u hyfforddi.
14. Dylai staff ddilyn patrwm penodol ar gyfer cynnal y tasgau sydd angen eu cynnal wrth gadw ieir dodwy. Fel rhan o hynny, dylen nhw fod yn neilltuol o ofalus wrth wneud yn siŵr bod y systemau'n gweithio'n iawn a bod yr adar yn ymddwyn fel y dylen nhw. Bydd hyn yn eu helpu i sylwi ar broblemau'n gyflym a deall yr hyn sydd angen ei wneud pan welir problem. Os nad yw achos y broblem yn amlwg, neu os nad yw'r hyn y mae'r ceidwad yn ei wneud yn gweithio, gofynnwch am gyngor milfeddygol neu dechnegol ar unwaith.
15. Mae'n hanfodol fod digon o amser gan y ceidwad o fewn ei ddiwrnod gwaith arferol i archwilio'r adar yn drylwyr ac i gymryd camau i ddatrys unrhyw broblemau. Dylai'r ceidwad ddeall y system hwsmona'n ddigon da i allu barnu a yw'r amgylchedd cyfan yn addas i iechyd a lles yr ieir.

Magu Ieir Dodwy

16. Dylech roi profiad, lle medrwch, i ieir dodwy, wrth eu magu, o arferion rheoli (e.e. systemau bwydo a dyfrio) ac amodau amgylcheddol (e.e. goleuni naturiol, clwydi, sarn, eitemau cyfoethogi) er mwyn iddyn nhw allu addasu i'r systemau hwsmonaeth y byddan nhw'n eu profi pan fyddan nhw'n henach. Gall magwyr a chynhyrchwyr drafod â'i gilydd i wneud yn siŵr bod yr amodau wrth fagu'r ieir mor debyg â phosib i'r amodau pan fyddan nhw'n dodwy.
17. Rhag eu dychryn ac o bosib eu hanafu, dylech drafod yr adar yn ofalus, yn gadarn ac yn dirion o'r dechrau. Dylech eu harchwilio'n araf, bwriadus ac aml er mwyn i'r adar ymgylfarwyddo â'ch presenoldeb.

Archwilio

Mae paragraffau 2-3 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

- 2.-(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), rhaid i anifeiliaid a gedwir mewn systemau hwsmonaeth lle mae eu lles yn dibynnu ar sylw dynol mynych gael eu harchwilio unwaith y dydd o leiaf, i wirio eu bod mewn cyflwr o lesiant.
- (2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), rhaid i anifeiliaid a gedwir mewn systemau hwsmonaeth lle nad yw eu lles yn dibynnu ar sylw dynol mynych gael eu harchwilio ar ysbeidiau digonol i osgoi unrhyw ddiodefaint.
3. Pan gedwir anifeiliaid mewn adeilad rhaid cael digon o oleuadau (naill ai'n sefydlog neu'n symudol) i'w galluogi i gael eu harchwilio'n drwyadl ar unrhyw adeg.

Mae Paragraff 6 o Atodlen 5 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan bod:

6. Mewn unrhyw lety sy'n cynnwys dwy neu ragor o haenau o gewyll rhaid cael dyfeisiau, neu gymryd mesurau priodol, i ganiatáu archwilio pob haen yn ddiraffferth ac i hwyluso symud ieir oddi yno.

18. Dylech gynnal archwiliad trwyadl o leiaf unwaith y dydd. Dylai archwiliadau o'r fath gael eu cynnal heb help unrhyw offer arolygu awtomatig. Dylai'r archwilio fod yn ddigon trwyadl i chi allu sylwi ar salwch neu anaf mewn iâr unigol a dylai'r archwiliad gynnwys archwiliad o flychau nythu lle gallai ieir sâl fynd i guddio ynddyn nhw. Dylech gadw'ch llygaid ar agor am barasitiaid allanol a sylwi ar gyflwr y tail, faint o fwyd a dŵr sy'n cael ei fwyta a'i yfed ac am lefelau tyfiant a chynhyrchu wyau. Cadwch olwg hefyd ar agweddau ar yr amgylchedd ffisegol fel cyflwr y sarn ac ansawdd yr aer.
19. Dylech archwilio ieir unigol os bydd yr archwiliad cyffredinol yn awgrymu bod angen gwneud. Lle bo gofyn, anogwch yr iâr i gerdded. Bydd iâr iach yn ymddwyn ac yn gwneud synau sy'n briodol i'w hoed a'i brîd neu fath, bydd ganddi lygaid disglair clir, osgo dda, croen glân clir, pluf mewn cyflwr da, coesau a

thraed wedi'u ffurfio'n dda, bydd yn cerdded yn dda ac yn bwydo ac yn yfed yn ddiwyd.

20. Gall arwyddion cynnar afiechyd gynnwys newidiadau yn ei phatrymau bwydo ac yfed, wrth lanhau'r plu, yn ei 'chleber' ac yn ei gweithgarwch. Efallai hefyd y gwelwch ei bod yn dodwy llai o wyau a newidiadau yn ansawdd yr wyau, fel masgl tenau.
21. Rhaid dylunio'r cytiau a'r offer fel bo modd ichi weld yr holl ieir dodwy yn glir. Efallai y bydd angen goleuadau ychwanegol er mwyn archwilio ieir ar haen isaf systemau cewyll gwell.

Trin Ieir Sâl/Tost ac Ieir wedi'u Hanafu

Mae Paragraffau 5-6 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

5. Rhaid gofalu yn briodol ac yn ddi-oed am unrhyw anifeiliaid sy'n ymddangos yn sâl neu wedi eu hanafu; pan nad ydynt yn ymateb i'r cyfryw ofal, rhaid cael cyngor milfeddygol cyn gynted ag y bo modd.
6. Os oes angen, rhaid ynysu anifeiliaid sâl neu anafus mewn llety addas gyda gwasarn cysurus sych, lle bo hynny'n briodol.

Mae Paragraff 4 o Atodlen 5 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan bod:

Rhaid i'r rhannau hynny o adeiladau, offer neu lestri sydd mewn cysylltiad â'r ieir gael eu glanhau a'u diheintio'n rheolaidd a phob tro y ceir diboblogi beth bynnag a chyn dod â llwyth newydd o ieir i mewn.

(2) Tra bydd ieir yn y cewyll -

- (a) rhaid i'r arwynebau a'r holl offer gael eu cadw'n foddhaol o lân;
- (b) rhaid i ddom gael ei symud ymaith; a
- (c) rhaid symud ieir marw oddi yno bob dydd

22. Bydd angen cynnal cynllun iechyd a lles ar gyfer pob uned, gan nodi'r gweithgareddau iechyd a hwsmonaeth y bydd angen eu gwneud. Bydd yn nodi'r trefniadau a'r mesurau rheoli sydd eu hangen i leihau'r risg o haint ac anaf. Dylai'r cynllun iechyd a lles gael ei ddatblygu yn unol â chyngor milfeddygol priodol a bydd angen adolygu ei effeithiolrwydd a'i ddiweddarau yn ôl y galw.
23. Os gwelir arwyddion o afiechyd neu newid yn ymddygiad yr ieir, dylai'r ceidwad gymryd camau ar unwaith i gael hyd i'r achos ac i'w ddatrys. Os na fydd y camau cyntaf hyn yn gweithio, rhaid holi milfeddyg ac os oes angen, dylech ofyn am gyngor arbenigol ar ffactorau technegol eraill allai fod yn gysylltiedig â'r mater. Os yw'r ieir yn cael eu hanafu dro ar ôl tro oherwydd efallai rhywbeth yn yr amgylchedd, dylech chwilio am y broblem a'i datrys cyn gynted ag y medrwch rhag i'r ieir gael eu hanafu eto.

24. Dylech drin ieir clwyfedig, sâl/tost neu sy'n dioddef strès ar unwaith ac os oes angen, cymerwch nhw o'r haid a'u cadw mewn lle addas i'r pwrpas neu eu lladd yn unol â Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014. Dylech storio ieir marw mewn lle addas neu gael gwared arnyn nhw'n syth.
25. Os daw'n amlwg wrth edrych ar yr ieir bod yna glefyd neu broblem ymddygiad, dylech ofyn cyngor arbenigwr a delio â'r broblem ar unwaith. Dylid edrych ar y cyfraddau stocio ac awyru ac ystyried eu newid er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y gwnaiff y broblem godi eto.

Cadw cofnodion

Mae Paragraffau 7 a 8 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

7. Rhaid cadw cofnod:

- (a) o unrhyw driniaeth feddyginiaethol a roir i anifeiliaid; a
- (b) o nifer o farwolaethau a ganfyddir ymhob archwiliad o'r anifeiliaid-

(c) yn achos ieir dodwy, dywed Paragraff 1 o Atodlen 5 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 fod yn rhaid i bob iâr gael ei harchwilio'n drwyadl gan y perchennog neu'r person â gofal dros yr iâr o leiaf unwaith bob dydd.

8. Rhaid cadw'r cofnod y cyfeirir ato ym mharagraff 7 am gyfnod o dair blynedd o leiaf o'r dyddiad pan roddwyd y driniaeth feddyginiaethol, neu ddyddiad yr archwiliad, a rhaid ei roi ar gael i arolygydd os gofynnir amdano.

26. Mae cofnodion yn help y mae'n rhaid ei gael i reoli; a dylen nhw gynnwys manylion faint o fwyd a dŵr a gymerir, ansawdd yr wyau, archwiliadau iechyd a lles, newid yn ymddygiad yr ieir, tymheredd yr aer a lefelau amonia.
27. Dylech fonitro lefelau marwolaethau, difa ac os medrir, lefelau salwch yn fanwl. Dylai person wedi'i hyfforddi neu fil-lawfeddyg gynnal archwiliadau post-mortem os yw lefelau marwolaethau'n sylweddol neu'n uwch na'r disgwyl. Cadwch gofnod o'r holl ganlyniadau hyn.

Bwydo a dyfrio

Mae paragraffau 22-27 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 am fwyd, dŵr a sylweddau eraill yn datgan:

22. Rhaid i anifeiliaid gael eu bwydo â deiet iachus sy'n briodol i'w hoedran a'u rhywogaeth ac a fwydir iddynt mewn swmp digonol i'w cynnal mewn iechyd da, i fodloni eu hanghenion maethol a hybu cyflwr cadarnhaol o lesiant.
23. Rhaid peidio â darparu i anifeiliaid fwyd neu hylif sy'n cynnwys unrhyw sylwedd a allai beri dioddefaint neu anaf diangen iddynt, a rhaid darparu bwyd a hylif ar eu cyfer mewn modd nad yw'n peri dioddefaint neu anaf diangen iddynt.
24. Rhaid i bob anifail gael y cyfle i fynd at fwyd ar adegau sy'n briodol i'w anghenion ffisiolegol, (ac o leiaf unwaith y dydd beth bynnag), ac eithrio pan fo milfeddyg wrth arfer ei broffesiwn yn cyfarwyddo fel arall.
25. Rhaid i bob anifail gael cyfle naill ai i fynd at gyflenwad addas o ddwr a chael cyflenwad digonol o ddŵr yfed ffres bob dydd, neu allu diwallu ei angen i yfed digon o hylifau trwy ddulliau eraill.
26. Rhaid i offer bwydo a dyfrio gael ei ddylunio, ei adeiladu, ei osod a'i gynnal fel bod difwyno bwyd a dŵr neu effeithiau niweidiol cystadlu rhwng anifeiliaid yn cael eu cadw i'r lleiaf posibl.

Ni chaniateir rhoi i anifeiliaid unrhyw sylwedd arall, ac eithrio rhai a roddir at ddibenion therapiwtig neu broffylactig neu at ddibenion triniaeth sŏotechnegol, oni ddangoswyd mewn astudiaethau gwyddonol ar les anifeiliaid neu trwy ymarfer sefydledig nad yw effaith y sylwedd hwnnw yn niweidiol i iechyd neu les yr anifeiliaid.

(2) Yn is-baragraff (1), mae i'r ymadrodd "triniaeth sŏotechnegol" yr ystyr a roddir i "*zootechnical treatment*" yn Erthygl 1(2)(c) o Gyfarwyddeb 96/22/EEC(1) ar wahardd defnyddio sylweddau penodol sy'n cael effaith hormonaidd neu thyrostatig a beta-agonistiaid mewn ffermio da byw.

Mae Paragraffau 2(a) a (b) o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 ar amodau ychwanegol wrth gadw ieir dodwy mewn systemau heb gewyll:

2. Rhaid i bob system gael ei chyfarparu mewn ffordd sy'n golygu bod gan bob iâr ddodwy-
 - (a) bwydwr llinol sy'n rhoi o leiaf 10cm i bob aderyn neu fwydwr crwn sy'n rhoi o leiaf 4cm i bob aderyn
 - (b) cafn yfed di-dor sy'n rhoi o leiaf 2.5cm i bob iâr neu gafn yfed crwn sy'n rhoi o leiaf 1cm i bob iâr;

Hefyd, mae Paragraffau 3 a 4 yn datgan:

3. Pan fo'r system yn defnyddio pigynnau dwr neu gwpanau, rhaid cael o leiaf un pigyn dwr neu gwpan i bob 10 iâr.
4. Pan fo gan y system fannau yfed sydd wedi eu plymio, rhaid cael o leiaf ddau gwpan neu ddau bigyn dŵr o fewn cyrraedd i bob iâr.

28. Rhaid bod bwyd a dŵr ar gael yn rhwydd i bob iâr.

29. Dylai offer bwydo a dyfrio fod yn gweithio ac wedi'u dylunio, eu hadeiladu, eu gosod a'u cynnal mewn ffordd fel :

- nad yw bwyd na dŵr yn cael eu sarnu ac nad oes baw'n cael mynd i'r bwyd na'r dŵr;
- bod yr holl ieir dodwy'n gallu cael at ddigon o ddŵr;
- nad ydyn nhw'n achosi na'n peri anaf i'r ieir;
- eu bod yn gweithio ym mhob tywydd;
- bod modd monitro faint o fwyd a dŵr sy'n cael ei fwyta neu ei yfed.

Hefyd, mae'n bwysig ei bod yn hawdd glanhau a diheintio'r offer.

30. Dylai fod yna ddigon o le wrth bob bwydwr i ieir dodwy allu cael y bwyd sydd ei angen arnyn nhw heb ormod o gystadlu. Os nad oes cyflenwad di-dor o fwyd, efallai y byddai'n well darparu rhagor o gafnau bwydo er mwyn i'r ieir i gyd allu bwyta yr un pryd.

31. Dylech osgoi newidiadau sydyn o ran y trefniadau bwydo a faint a'r math o fwyd a roddir, heblaw am y newidiadau sydd eu hangen er lles corfforol ieir neu mewn argyfwng.

32. Rhaid gwrthod systemau sy'n gofyn am beidio â rhoi bwyd na dŵr i adar ar unrhyw ddiwrnod. Peidiwch byth â rhwystro ieir rhag cael bwyd a dŵr er mwyn eu cael i fwrw eu plu. Er hynny, cewch eu cadw heb fwyd ond nid heb ddŵr am hyd at 12 awr cyn eu lladd. Rhaid i'r cyfnod hwn o 12 awr gynnwys yr amser a gymerir i ddal yr adar, eu llwytho, eu cludo, eu crynhoi a'u dadlwytho cyn eu lladd.

33. Rhag i'r ieir gael bwyd a dŵr hen neu halogedig, dylech eu newid yn rheolaidd. Rhaid gofalu nad yw dŵr yfed yn cael rhewi.

34. Gallech wasgaru ychydig o rawn cyflawn dros y sarn (gwasarn - *litter*) bob dydd i annog yr ieir i chwilio a chrafu, gan leihau'r posibilrwydd y byddan nhw'n pigo plu ei gilydd.

35. Bydd rhoi grit i'r ieir o'u dyddiau cynnar yn helpu i ddatblygu'u system dreulio ac yn sicrhau treuliad da i'r ieir ar hyd eu hoes.

36. Dylech sicrhau ymlaen llaw bod digon o fwyd a dŵr addas ar gael mewn argyfwng e.e. pan fydd toriad yn y trydan neu ddŵr yn rhewi.

37. Cadwch olwg ar gyflwr corff yr ieir, eu pwysau ac ansawdd a nifer eu hwyau i fonitro effeithiolrwydd y drefn fwydo.

Rhyddid i Symud

Mae Paragraffau 9 a 10 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

9. Gan roi sylw i'w rhywogaeth ac yn unol ag arferion da a gwybodaeth wyddonol, rhaid peidio â chyfyngu ar ryddid anifeiliaid i symud mewn unrhyw ffordd a fydd yn peri dioddefaint neu anaf diangen iddynt.

10. Pan fo anifeiliaid yn cael eu clymu neu eu caethiwo yn ddi-dor neu'n rheolaidd, rhaid caniatáu lle priodol iddynt ar gyfer eu hanghenion ffisiolegol ac etholegol yn unol ag arferion da a gwybodaeth wyddonol.

Mae Paragraff 8 o Atodlen 2 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 ar amodau ychwanegol wrth gadw ieir dodwy mewn systemau heb gewyll, yn datgan:

8. Rhaid i'r dwysedd stocio beidio â bod yn uwch na naw iâr ddodwy i bob m² o le y gellir ei ddefnyddio.

38. Wrth benderfynu ar y gyfradd stocio, dylech ystyried y brîd, y cytiau, maint yr haid, y tymheredd, yr awyru a'r goleuo, yn ogystal â nifer y platfformau, y clwydi neu'r gosodiadau addas eraill sydd ar gael yn y trydydd dimensiwn.

Cytiau

Mae Paragraffau 11-12 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

11. Rhaid i'r defnyddiau a ddefnyddir i adeiladu'r llety, ac, yn benodol ar gyfer adeiladu corlannau, cewyll, corau ac offer y gall yr anifeiliaid ddod i gyffyrddiad â hwy, beidio â bod yn niweidiol iddynt a rhaid bod modd eu glanhau a'u diheintio'n drylwyr.

12. Rhaid i'r llety a'r ffitiadau a ddefnyddir i ddiogelu'r anifeiliaid fod wedi eu hadeiladu a'u cynnal fel nad oes unrhyw ymylon nac allwthiadau miniog sy'n debygol o achosi anaf i anifail.

Mae Paragraff 5 o Atodlen 5 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan bod:

5. Rhaid cyfarparu'r cewyll yn addas i atal yr ieir rhag dianc.

Mae Paragraff 7 o Atodlen 5 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan bod:

7. Rhaid i ddyluniad a dimensiynau drws y cawell fod yn gyfryw ag i iâr lawndwf gael ei thynnu oddi yno heb ddiodef yn ddiangen a heb ei niweidio.

39. Bydd dyluniad, adeiladwaith a gwaith cynnal a chadw closau, adeiladau ac offer ar gyfer ieir dodwy:

- Yn diwallu anghenion biolegol hanfodol ac yn cynnal iechyd da;
- yn hwyluso'r gwaith o reoli'ch ieir yn effeithiol;
- yn caniatáu ichi gadw'r lle'n lân a chynnal ansawdd yr aer yn rhwydd;
- yn darparu cysgod rhag tywydd drwg;
- yn cyfyngu ar y risg o glefyd, afiechydon a welir drwy newidiadau yn yr ymddygiad, anafiadau trawmatig i'r adar, anafiadau i'r adar gan ei gilydd a, chyn belled ag y gellir, trochi'r adar â baw;
- yn cadw ysglyfaethwyr, cnofilod, ac anifeiliaid gwylt allan ac yn cadw niferoedd pryfed i lawr;
- yn caniatáu ar gyfer atal a thrin plâu o barasitiaid mewnol ac allanol;
- yn ymgorffori haenen atal lleithder er mwyn inswleiddio'r lle a mesurau i rwystro fermin rhag mynd yn rhwydd i'r deunydd inswleiddio;
- yn rhoi digon o oleuni naturiol i'r ieir allu ymddwyn yn normal.

40. Dylid rhoi cynlluniau wrth gefn ar waith ar ôl asesu'r peryglon posib. Dylai cynlluniau wrth gefn allu delio â digwyddiadau fel toriad yn y cyflenwad bwyd neu ynni neu ddŵr; trychinebau naturiol fel llyfogydd a thanau; trefniadau i ddelio â'r cyfyngiadau pan geir clefyd hysbysadwy, gan gynnwys cadw adar maes dan do am gyfnod. Dylai'r cynlluniau gynnwys trefniadau hefyd ar gyfer lladd adar a chael gwared ar adar os bydd yn rhaid gwacáu cwt oherwydd clefyd hysbysadwy neu am fod gwenwyn wedi llygru'r bwyd neu'r borfa.

41. Mewn cwt ar gyfer ieir dodwy, dylech ofalu nad yw dyluniad na deunydd y lloriau, clwydi a phlatfformau yn achosi anghysur, gofid nac anaf i'r ieir. Rhaid iddyn nhw gynnig digon o gynhaliaeth, yn arbennig i'r craffangau sy'n wynebu ymlaen ar bob troed; hefyd, dylai'r clwydi fod yn ddigon hir i bob aderyn allu clwydo ar yr un pryd. Dylai lloriau, clwydi a phlatfformau gael eu cadw'n ddigon sych a glân.

42. Rhaid i'r ieir allu cadw eu hunain yn lân.

43. Dylai'r offer awyru, gwresogi, goleuo, bwydo, dyfrio a'r holl offer arall gael eu dylunio, eu lleoli a'u gosod fel nad oes perygl iddyn nhw anafu'r adar.

Systemau heb gewyll

Mae Paragraffau 2(c), (d) ac (e), 5 a 6 o Atodlen 2 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 ar amodau ychwanegol wrth gadw ieir dodwy mewn systemau heb gewyll, yn datgan:

2. Rhaid i bob system gael ei chyfarparu mewn ffordd sy'n golygu bod gan bob iâr ddodwy-

(a) bwydwr llinol sy'n rhoi o leiaf 10cm i bob aderyn neu fwydwr crwn sy'n rhoi o leiaf 4cm i bob aderyn;

(b) cafn yfed di-dor sy'n rhoi o leiaf 2.5cm i bob iâr neu gafn yfed crwn sy'n rhoi o leiaf 1cm i bob iâr;

(c) o leiaf un nyth i bob saith iâr ac, os defnyddir nythod grŵp, rhaid cael o leiaf 1 m² o le nythu ar gyfer uchafswm o 120 o ieir;

(ch) clwydi, heb ymylon miniog ac sy'n darparu o leiaf 15cm i bob iâr. Rhaid peidio â gosod clwydi

uwchben y llaesodr a rhaid i'r pellter llorweddol rhwng y clwydi fod yn 30cm o leiaf a rhaid i'r

pellter llorweddol rhwng y glwyd a'r wal fod yn 20cm o leiaf; a

(d) o leiaf 250 cm² o fan o dan laesodr i bob iâr, a'r llaesodr dros o leiaf un traean o arwynebedd y llawr.

5. Rhaid i loriau'r gosodiadau fod wedi eu hadeiladu fel y gallant gynnal pob un o'r crafangau iâr sy'n wynebu ymlaen, ar bob troed i bob iâr.

6. Os defnyddir systemau lle y gall yr ieir dodwy symud yn rhydd rhwng gwahanol lefelau —

(a) rhaid peidio â chael mwy na phedair lefel;

(ii) rhaid i'r uchder rhwng y lefelau fod yn 45cm o leiaf;

(c) rhaid i'r cyfleusterau yfed a bwydo gael eu dosbarthu mewn ffordd sy'n golygu bod cyfle cyfartal i bob iâr fynd atynt; a

(ch) rhaid i'r lefelau gael eu trefnu i atal ysgarthion rhag cwmpo ar y lefelau islaw.

44. Gall y lle y gellir ei ddefnyddio gynnwys llawr yr adeilad os yw'r ieir yn gallu mynd ato ac unrhyw fannau uwch neu blatfformau sy'n 30cm o led o leiaf, gan gynnwys lloriau â thyllau ynddynt cyn belled â bod trefniadau i atal baw rhag syrthio ar ieir islaw.

45. Dylid darparu nythod â llawr addas sy'n annog ieir i nythu. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar ddechrau'r cyfnod dodwy, pan gellir rhoi sarn yn y nythod i annog y cywennod i'w defnyddio. Dylai'r nythod unigol gael eu dylunio i gymryd un iâr yn unig ar y tro. Dylai nythod ar gyfer mwy nag un iâr gael eu dylunio gan ddefnyddio adrannau a mynedfeydd addas rhag i ormod o ieir allu mynd iddyn nhw ar y tro.

46. Os ydy llawer y nyth wedi'i wneud o weiar netin, dylech osod deunydd arall fel gwellt neu blastig fel na fydd traed yr iâr yn cyffwrdd â'r weiar netin.

47. Dim ond clwydi sydd fwy na 30cm oddi wrth ei gilydd fydd yn cael eu cyfrif fel rhan o'r gofod clwydo.

48. Dylai fod gan system aml-haen o blatfformau tyllog felt neu lestr i ddal baw oddi tanynt. Wrth osod clwydi, gofalgwch na fydd tail yn cwmpo ar ben yr ieir oddi tanynt a gofalgwch na all tail gwmpo i offer bwydo a dyfrio.

49. Hyd yn oed os ydych yn darparu rampiau neu blatfformau a/neu reilen laniog, gofalwch nad yw nythod, mannau clwydo, clwydi na haenau mor uchel uwch ben y llawr fel ei bod yn anodd i'r adar eu defnyddio, neu bod yna risg y cânt eu hanafu. Er hynny, gofalwch fod y clwydi'n ddigon pell o'r llawr fel na all yr ieir sydd ar y llawr bigo plu'r ieir ar y clwydi.

Cewyll Gwell

Paragraffau 1-6 o Atodlen 4, Rheoliad 5 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007, amodau ychwanegol sy'n ymwneud â chadw ieir dodwy mewn cewyll gwell, yn datgan bod:

1. Rhaid i'r holl ieir dodwy nas cedwir mewn system ddi-gawell y cyfeirir ati yn Atodlen 2 neu mewn system cewyll y cyfeirir ati yn Atodlen 3 gael eu cadw mewn system cewyll gwell sy'n cydymffurfio â gofynion yr Atodlen hon.
2. Rhaid i ieir dodwy gael-
 - (a) o leiaf 750 cm² o arwynebedd cawell i bob iâr, y mae'n rhaid i 600 cm² ohono fod yn arwynebedd y gellir ei ddefnyddio; rhaid i uchder y cawell heblaw'r uchder uwchben yr arwynebedd y gellir ei ddefnyddio, fod yn 20 cm o leiaf ym mhob pwynt, a rhaid i'r cyfanswm arwynebedd lleiaf mewn unrhyw gawell fod yn 2000 cm²;
 - (b) mynediad i nyth;
 - (c) llaesodr fel bod modd pigo a chrafu;
 - (ch) clwydi priodol sy'n caniatáu o leiaf 15 cm i bob iâr.
3. Rhaid darparu cafn bwydo y gellir ei ddefnyddio heb gyfyngiad ac sydd â'i hyd o leiaf yn lluoswm 12 cm a nifer yr ieir yn y cawell.
4. Rhaid i bob cawell gael system yfed sy'n briodol ar gyfer maint y grŵp; os darperir pigynnau dŵr, rhaid cael o leiaf ddau bigyn dŵr neu ddau gwpan o fewn cyrraedd i bob iâr.
5. Er mwyn hwyluso archwilio, gosod a diboblogi'r ieir rhaid cael ale o 90 cm o led o leiaf rhwng haenau o gewyll a rhaid caniatáu 35 cm o leiaf rhwng llawr yr adeilad a haen isaf y cewyll.
6. Rhaid gosod dyfeisiau addas ar gyfer cwtogi crafangau yn y cewyll.

Mae Paragraff 2(d) Erthygl 2 Cyfarwyddeb y Cyngor 1999/74/EC³, sy'n gosod y safonau gofynnol ar gyfer amddiffyn ieir dodwy, yn nodi y dylai fod o leiaf 45cm o uchder o le y gellir ei ddefnyddio mewn cawell.

Dylech droi hefyd at y Safonau Marchnata Wyau am "wyau maes/buarth" (gweler Atodiad 1).

³ [Cyfarwyddeb y Cyngor 1999/74/EC](#)

50. Os ceir tystiolaeth fod crafangau'r ieir wedi tyfu'n rhy hir neu wedi torri, yna dylid defnyddio dyfeisiau torri crafangau. Gall dyfeisiau sy'n rhy arw anafu'r ieir felly rhaid wrth ofal wrth ddefnyddio'r dyfeisiau hyn.
51. Dylai lled yr ale gael ei fesur yn ôl lled di-rwystr rhwng ochrau allanol y cafnau bwydo. Dylai'r pellter at y llawr gael ei fesur hyd at sylfaen weiar y cawell.
52. Dylai'r nythod fod yn ddiddrafft ac allan o'r ffordd.

Yr amgylchedd

Awyru a thymheredd

Mae Paragraff 13 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan bod:

13. Rhaid i gylchrediad aer, lefelau llwch, tymheredd, lleithder aer cymharol a chrynodiadau nwy gael eu cadw o fewn terfynau nad ydynt yn niweidiol i anifeiliaid.

53. Dylech inswleiddio ac awyru'r adeilad rhag i'r adar ddioddef gwres neu oerfel gormodol. Dylech ofalu'n arbennig eich bod yn diogelu ieir sy'n sensitif i oerfel, fel y rheini sydd mewn lleoedd cyfyng neu sydd wedi colli'u pluf, rhag drafftiau oer.

54. Ni ddylai ieir, yn arbennig adar mewn cewyll, gael bod yn llygad haul cryf nac mewn gwres mawr yn ddigon hir iddynt ddioddef oherwydd y gwres. Mae anadlu trwm yn arwydd eu bod yn dioddef.

55. Dylai'r system awyru, a'r cyfleusterau ar gyfer storio a thrafod sarn a thail gael eu dylunio, eu cynnal a'u rheoli fel na ddaw'r ieir i gysylltiad â chrynodiadau digon cryf o nwyon fel amonia, hydrogen sylffid, carbon deuocsid a charbon monocsid fel eu bod yn achosi anesmwythyd i'r ieir neu sy'n ddrwg i'w hiechyd.

Golau

Mae Paragraffau 14-16 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

14. Rhaid i anifeiliaid a gedwir mewn adeiladau beidio â chael eu cadw mewn tywyllwch parhaol.

15. Pan nad yw'r golau naturiol sydd ar gael mewn adeilad yn ddigonol i ddiwallu anghenion ffisiolegol ac etholegol unrhyw anifeiliaid a gedwir ynddo, rhaid darparu golau artiffisial priodol.

16. Rhaid peidio â chadw anifeiliaid a gedwir mewn adeiladau heb gyfnod priodol o orffwys rhag olau artiffisial.

Mae Paragraff 3 o Atodlen 5 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

3.-(1) Rhaid cael lefelau golau ym mhob adeilad sy'n ddigonol i ganiatáu i'r ieir weld ei gilydd a chael eu gweld yn eglur, ymchwilio i'w hamgylchoedd yn weledol a dangos lefelau normal o weithgarwch.

(Os oes goleuni naturiol, rhaid trefnu'r agoriadau goleuni mewn ffordd sy'n golygu bod y goleuni'n cael ei wasgaru'n gyfartal yn y llety.

(3) Ar ôl y dyddiau cyntaf o ymgyfarwyddo, rhaid i'r gyfundrefn oleuo fod yn gyfryw ag i atal problemau iechyd ac ymddygiad, ac felly rhaid iddi ddilyn rhythm 24-awr a chynnwys cyfnod digonol o dywyllwch di-dor sy'n parhau, yn ddynodol, am oddeutu traean o'r diwrnod.

(4) Os oes modd, dylid darparu cyfnod digonol o lwydoleuo, pan fo'r golau yn cael ei bylu er mwyn i'r ieir setlo heb aflonyddwch nac anaf.

56. O dan amodau arferol, ym mhob system, dylid sicrhau lefel o olau o o leiaf 5 lux ac os medrir, dim llai na 10 lux, o'i fesur wrth unrhyw gafn bwydo; mewn systemau heb gewyll, dylai lefel y golau yn y manau clwydo, cerdded a bwydo fod yn 10 lux o leiaf, o'i fesur ar lefel llygaid yr adar. Er hynny, gall gostwng y golau helpu i ymdrin ag arferion drwg megis pigo plu neu ganibaliaeth.

57. Ymhob cwt, yn enwedig y rheini sydd â golau naturiol, dylid sicrhau fod y golau'n cael ei ddsbarthu mor gyfartal â phosibl.

58. Dylid sicrhau cyfnod o lwydoleuni er mwyn rhoi amser i ieir fynd i glwydo.

Sarn (Gwasarn/Llaesodr - litter)

Mae Paragraff 2(d) o Atodlen 2 Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan y dylai pob system lle cedwir ieir dodwy ynddi fod 131:

(d) o leiaf 250 cm² o fan o dan laesodr i bob iâr, a'r llaesodr dros o leiaf un traean o arwynebedd y llawr.

Mae Paragraff 2(c) o Atodlen 4 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007, ar amodau ychwanegol sy'n berthnasol i gadw ieir dodwy mewn cewyll gwell, yn datgan bod ieir dodwy yn gorfod cael:

(c) llaesodr fel bod modd pigo a chrafu;

59. Mewn systemau heb gewyll, rhaid i bob aderyn allu mynd at fan sydd o dan sarn. Rhaid cadw'r sarn mewn cyflwr hyfriu (yn chwalu'n rhwydd) ac yn ddigon dwfn (rhyw 10cm) i'r ieir allu chwalu llwch drostynt eu hunain. Er mwyn cadw'r sarn mewn cyflwr da, gallwch greu'r dyfnder hwn dros ddau fis cyntaf ei ddefnyddio. Dylai fod gan ieir lawr o ansawdd da o dan eu traed iddyn nhw allu ymddwyn yn naturiol, gan gynnwys chwalu llwch drostynt eu hunain a chrafu, ac i osgoi problemau iechyd a lles.

60. Peidiwch â defnyddio sarn sydd wedi llwydo. Archwiliwch y sarn yn rheolaidd rhag plâu o organeddau a allai fod yn niweidiol i ieir dodwy.

Sŵn

Mae Paragraff 2 o Atodlen 5 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

2. Ym mhob system lle cedwir ieir dodwy-

(a) rhaid i lefel y sŵn fod ar ei isaf posibl;

(b) rhaid osgoi sŵn cyson a sydyn; a

rhaid i wyntyllau awyru, peiriannau bwydo ac offer arall gael eu hadeiladu, eu lleoli, eu gweithredu a'u cynnal mewn ffordd sy'n peri iddynt wneud cyn lleied o sŵn ag y bo modd.

Ieir mewn rhedfeydd agored (libart - run)

Mae Paragraff 17 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan bod:

17. Pan na chedwir anifeiliaid mewn adeiladau, rhaid eu hamddiffyn pan fo angen a phan fo'n bosibl rhag tywydd gwael, ysglyfaethwyr a risgiau i'w hiechyd, a rhaid iddynt gael cyfle bob amser i fynd i fan gorwedd sydd wedi'i draenio'n dda.

Mae Paragraffau 7(a) a (b) o Atodlen 2 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007, ar amodau ychwanegol sy'n ymwneud â chadw ieir dodwy mewn systemau heb gewyll, yn datgan bod:

7. Os gall ieir dodwy fynd i libart agored -

(a) rhaid cael nifer o dyllau, o leiaf 35 cm o uchder a 40 cm o led, yn arwain yn uniongyrchol i'r man allanol ac yn ymestyn am y cyfan o hyd yr adeilad; a rhaid sicrhau beth bynnag bod cyfanswm o 2 m o agoriad ar gael ar gyfer pob grwp o 1,000 o ieir; a

(b) rhaid i libartau agored —

(i) fod ag arwynebedd sy'n briodol ar gyfer y dwysedd stocio a natur y tir, er mwyn atal unrhyw halogi; a

(ii) wedi'u cyfarparu â chysgod rhag tywydd drwg ac ysglyfaethwyr ac, os oes eu hangen, â chafnau yfed priodol.

Dylech droi hefyd at y Safonau Marchnata Wyau am "wyau maes/buarth" (gweler Atodiad 1).

61. Lle bo ieir dodwy'n cael eu cadw o dan system nad yw'n ddwys a'u bod yn rhydd i grwydro, mae'n bwysig darparu cysgod dan do iddynt rhag yr haul, gwynt a glaw ac i annog adar i ddefnyddio'r tir sydd ganddynt i'w grwydro. Ar dir agored dylid darparu cysgodfeydd rhag y gwynt. Dylid cymryd camau rhesymol i amddiffyn ieir rhag anifeiliaid ysglyfaethus.

62. Dylai'r cytiau sy'n cael eu defnyddio gan ieir maes fod o safon ddigon da i sicrhau na fyddan nhw'n dioddef oherwydd gwres neu oerfel mawr.

63. Mae ffactorau megis y math o bridd, y draeniad, maint yr haid a pha mor aml y mae'r haid yn cael ei chylchdroi yn bwysig iawn wrth benderfynu ar faint o adar y gall man benodol ei gynnal. Bydd pridd trwm nad yw'n draenio'n dda yn cynnal llai o adar na thir ysgafn sy'n draenio'n dda.
64. Dylai heidiau a chytiau symudol gael eu symud yn ddigon rheolaidd rhag i'r tir droi'n fwd parhaus a/neu rhag llygu'r tir ag organeddau sy'n achosi neu sy'n cario clefyd a allai wneud niwed difrifol i iechyd yr ieir. Os nad oes modd symud y cytiau'n aml, byddai'n arfer da amddiffyn y pridd sy'n ffinio â'r cytiau hynny e.e. drwy ddarparu llwyfannau o estyllod neu weiar netin, ferandas dan do neu fannau graeanog.
65. Dylai ieir dodwy gael eu hannog i ddefnyddio'r manau awyr agored trwy ddarparu llystyfiant addas sydd wedi'i reoli'n dda, manau crafu a manau dan do, i gyd yn ddigon pell o'r cwt i'w hannog i grwydro.
66. Pan gaiff ieir dodwy eu trosglwyddo i gytiau maes, gofalgwch nad oes gormod o ieir yn cael eu rhoi yn y cwt ac nad oes perygl iddynt fygu, yn enwedig yn yr ychydig nosau cyntaf.
67. Os ydych yn cyfrif arwynebedd y feranda sy'n sownd wrth gwt maes wrth gyfrif arwynebedd y llawr, rhaid i'r tyllau mynediad fodloni'r gofynion cyfreithiol a rhaid i'r tyllau rhwng y cwt a'r feranda fod ar agor trwy'r amser.

Offer awtomataidd neu fecanyddol

Mae Paragraffau 18-21 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

18. Rhaid i bob offer awtomataidd neu fecanyddol sy'n angenrheidiol ar gyfer iechyd a llesiant yr anifeiliaid gael eu harchwilio o leiaf unwaith y dydd i sicrhau nad oes unrhyw ddiffyg arno.

19. Pan ganfyddir diffygion mewn offer awtomataidd neu fecanyddol o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff 18, rhaid eu cywiro ar unwaith, neu os nad yw hyn yn bosibl, rhaid cymryd camau priodol i ddiogelu iechyd a llesiant yr anifeiliaid tra disgwylir i'r diffygion hynny gael eu cywiro, gan gynnwys defnyddio dulliau amgen o fwydo a dyfrio a dulliau amgen o ddarparu a chynnal amgylchedd boddhaol.

20. Pan fydd iechyd a llesiant yr anifeiliaid yn ddibynnol ar system awyru artiffisial-

(a) rhaid darparu system briodol wrth gefn i warantu y gellir adnewyddu'r aer yn ddigonol i ddiogelu iechyd a llesiant yr anifeiliaid pe digwyddai i'r system fethu; a

(b) rhaid darparu system larwm (a fydd yn gweithredu hyd yn oed os bydd y prif gyflenwad trydan yn methu) i rybuddio am unrhyw fethiant yn y system.

21. Rhaid i'r system wrth gefn y cyfeirir ati ym mharagraff 20(a) gael ei harchwilio'n drwyadl a rhaid i'r system larwm y cyfeirir ati ym mharagraff 20(b) gael ei phrofi o leiaf unwaith bob saith diwrnod er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddiffyg ar y system, ac os canfyddir unrhyw ddiffyg ar unrhyw adeg, rhaid ei gywiro ar unwaith.

68. Rhaid i'r holl offer awtomataidd y mae lles yr adar yn dibynnu arnyn nhw ymgorffori dyfais na fydd yn methu a system larwm i rybuddio'r ceidwad os oes rhywbeth yn bod. Dylai diffygion gael eu cywiro ar unwaith neu dylid cymryd mesurau eraill i ddiogelu iechyd a lles yr adar. Gan hynny, dylai dulliau eraill o fwydo'r adar ac o gadw amgylchedd boddhaol fod yn barod i'w defnyddio.

69. Ni ddylai'r adar allu cael at osodweithiau trydanol ar foltedd y prif gyflenwad, a rhaid gofalu eu bod wedi'u daearu.

Anffurfio

Mae Rheoliadau Anffurfio (Gweithdrefnau a Ganiateir) (Diogelu) (Cymru) 2010, ar docio pigau dofednod, yn datgan:

5. Tocio pigau dofednod

(1) Ar gyfer pob dofeddyn, rhaid i'r driniaeth docio pigau gael ei rhoi gan ddefnyddio offeryn addas.

(2) Ar gyfer pob dofeddyn, rhaid atal unrhyw waedlif sy'n dod o'r big yn sgil hynny drwy ei serio.

(3) Ar gyfer pob dofeddyn, rhaid rhoi'r driniaeth a ganlyn—

(a) y big uchaf a'r big isaf fel ei gilydd, heb fod mwy na thraean o bob un wedi ei dynnu, neu

(b) y big uchaf yn unig, heb fod mwy na thraean wedi ei dynnu.

(4) Ar gyfer ieir dodwy a chywion y bwriedir iddynt ddod yn ieir dodwy, a gedwir mewn sefydliadau sydd â 350 neu fwy o adar o'r fath—

(a) caniateir tocio pigau yn unig er mwyn atal pigo pluf neu ganibaliaeth;

(b) rhaid defnyddio technoleg is-goch;

(c) ni chaniateir tocio pigau adar sy'n 10 niwrnod oed neu drosodd; a

(ch) rhaid i'r driniaeth docio pigau gael ei rhoi gan berson a gafodd wybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant addas a digonol fel ei fod yn gymwys i roi'r driniaeth.

(5) Nid yw is-baragraffau (4)(b) ac (c) yn gymwys os rhoddir y driniaeth mewn argyfwng er mwyn rheoli brigiad o bigo pluf neu ganibaliaeth.

70. Dylid sicrhau fod gwaith tocio'r big yn cael ei wneud i'r safonau uchaf posibl gan weithwyr sydd wedi eu hyfforddi.

71. Rhaid monitro offer trin pigau is-goch er mwyn gwneud yn siŵr bod y driniaeth yn effeithiol, o ran hyd y big a lles y cyw. Rhaid cynnal a chadw'r offer a'u calibradu.

72. Dylech fynd i'r afael ar unwaith â phroblemau pigo pluf niweidiol. Dylai ceidwaid roi cynllun gweithredu ar bluf ar waith, fydd yn esbonio sut y bydd yn rheoli pigo niweidiol a chanibaliaeth. Ymddygiad afleoedig yw pigo pluf, pan na chaiff iâr dwrio am fwyd, ac mae'n fwy cyffredin mewn adar sy'n dioddef strès. Gall ffactorau fel strès, afiechyd a'u cadw'n rhy dynn at ei gilydd leihau cyfleoedd i ieir

chwilota am fwyd a'u sbarduno i ddechrau pigo pluf ei gilydd. Gallwch annog eich ieir i beidio â phigo pluf a bwya'u gilydd trwy eu denu i dwrio am fwyd a thrwy unrhyw fesur all wella'u hiechyd a'u lles a lleihau strès. Cewch ragor o wybodaeth am bigo pluf yn Atodiad 3.

GWEITHDREFNAU BRIDIO

Mae Paragraffau 28-29 o Atodlen 1 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 yn datgan:

(28).-(1) Rhaid peidio â defnyddio bridio neu weithdrefnau bridio naturiol neu artiffisial sy'n peri neu sy'n debygol o beri dioddefaint neu anaf i unrhyw un o'r anifeiliaid o dan sylw.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn atal defnyddio gweithdrefnau bridio naturiol neu artiffisial sy'n debygol o beri'r dioddefaint minimal neu fyrhoedlog, neu rai a allai beri bod angen ymyriadau na fyddent yn achosi anaf parhaol.

29. Ni chaniateir cadw unrhyw anifeiliaid at ddibenion ffermio oni ellir disgwyl yn rhesymol, ar sail eu genoteip neu eu ffenoteip, y gellir eu cadw heb effaith niweidiol i'w hiechyd neu eu lles.

Dal Adar a'u Cludo

Rhoddir Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 1.2005 ar amddiffyn anifeiliaid wrth iddynt gael eu cludo a gweithrediadau cysylltiedig yng Nghymru ar waith gan Orchymyn Lles Anifeiliaid (Trafnidiaeth) (Cymru) 2007.

Mae Erthygl 3 o Reoliad y Cyngor (EC) rhif 1/2005 yn datgan:

No person shall transport animals or cause animals to be transported in a way likely to cause injury or undue suffering to them.

In addition, the following conditions shall be complied with:

a) all necessary arrangements have been made in advance to minimise the length of the journey and meet animals' needs during the journey;

b) the animals are fit for the journey;

c) the means of transport are designed, constructed, maintained and operated so as to avoid injury and suffering and ensure the safety of the animals;

d) the loading and unloading facilities are adequately designed, constructed, maintained and operated so as to avoid injury and suffering and ensure the safety of the animals;

e) the personnel handling animals are trained or competent as appropriate for this purpose and carry out their tasks without using violence or any method likely to cause unnecessary fear, injury or suffering;

f) the transport is carried out without delay to the place of destination and the welfare conditions of the animals are regularly checked and appropriately maintained;

- g) sufficient floor area and height is provided for the animals, appropriate to their size and the intended journey;
- h) water, feed and rest are offered to the animals at suitable intervals and are appropriate in quality and quantity to their species and size.

Mae Paragraff 3 o Atodlen 1 o Bennod 1 Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 1/2005, ar fod yn ffit i deithio, yn datgan:

Sick or injured animals may be considered fit for transport if they are:

- a) slightly injured or ill and transport would not cause additional suffering; in cases of doubt, veterinary advice shall be sought;
- b) transported for the purposes of Council Directive 86/609/EEC if the illness or injury is part of a research programme;
- c) transported under veterinary supervision for or following veterinary treatment or diagnosis. However, such transport shall be permitted only where no unnecessary suffering or ill treatment is caused to the animals concerned;
- d) animals that have been submitted to veterinary procedures in relation to farming practices such as dehorning or castration, provided that wounds have completely healed.

Mae Paragraff 1.1 o Atodlen 1 o Bennod 2 Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 1/2005, ar ddulliau cludo, yn datgan:

1.1. Means of transport, containers and their fittings shall be designed, constructed, maintained and operated so as to:

- a) avoid injury and suffering and to ensure the safety of the animals;
- b) protect the animals from inclement weather, extreme temperatures and adverse changes in climatic conditions;
- c) be cleaned and disinfected;
- d) prevent the animals escaping or falling out and be able to withstand the stresses of movements;
- e) ensure that air quality and quantity appropriate to the species transported can be maintained;
- f) provide access to the animals to allow them to be inspected and cared for;
- g) present a flooring surface that is anti-slip;
- h) present a flooring surface that minimises the leakage of urine or faeces;
- l) provide a means of lighting sufficient for inspection and care of the animals during transport.

Mae Paragraff 2.1 o Atodlen 1 o Bennod 5 Rheoliad y Cyngor 1/2005, ar y bylchau dyfrio a bwydo, amserau teithio a chyfnodau gorffwys, yn datgan:

2.1. For poultry, domestic birds and domestic rabbits, suitable food and water shall be available in adequate quantities, save in the case of a journey lasting less than:

- (a) 12 hours disregarding loading and unloading time; or

(b) 24 hours for chicks of all species, provided that it is completed within 72 hours after hatching.

Mae Atodiad 1 o Bennod 7 Rheoliad y Cyngor 1/2005 yn pennu'r lle sy'n ofynnol ar gyfer cludo dofednod mewn cratiau.

Rhaid darparu o leiaf yr arwynebedd a ganlyn:

Categori	Arwynebedd mewn cm ²
Cywion diwrnod oed	21-25 y cyw
Dofednod heblaw cywion diwrnod oed: Pwysau mewn kg	Arwynebedd mewn cm ² y kg
<1.6	180 – 200
1.6 i <3	160
3 i <5	115
>5	105

73. Ni ddylech peidio â bwydo a dyfrio ieir dodwy. Ond fe ellir eu cadw heb fwyd ond nid heb ddŵr am hyd at 12 awr cyn eu lladd. Rhaid i'r cyfnod hwn o 12 awr gynnwys yr amser a gymerir i ddal yr adar, eu llwytho, eu cludo, eu crynhoi a'u dadlwytho cyn eu lladd.
74. Dylid gwneud trefniadau â'r lladd-dy er mwyn cyfyngu ar yr amser y caiff yr ieir eu cadw mewn cratiau cyn eu cludo.
75. Cyn gwacáu cytiau, rhaid tynnu gosodiadau a'r ffitiadau all fod yn y ffordd, yn arbennig ymylon miniog ac unrhyw bethau sy'n ymwthio allan. Wrth ddal yr ieir, rhaid cymryd gofal i osgoi panig rhag eu niweidio a'u mygu, er enghraifft drwy ostwng y golau drwy ddefnyddio golau glas.
76. Mae angen dawn i drafod ieir yn iawn, a dim ond pobl gymwys sydd wedi'u hyfforddi'n briodol a ddylai gael gwneud. Dylech ei wneud yn dawel a hyderus, gan osgoi unrhyw ymladd diangen rhag cleisio'r ieir neu eu hanafu mewn ffordd arall. I dynnu ieir dodwy o gewyll, cydiwch ynddyn nhw un ar y tro gan ofalu peidio â'u hanafu na gadael iddyn nhw ddiodef, hynny gerfydd y DDWY goes. Cynhaliwch y frest wrth eu tynnu o'r cawell. O ran ieir rhydd mewn cwt, cydiwch ynddyn nhw gerfydd y ddwy goes rhag eu hanafu neu achosi iddyn nhw ddiodef.
77. Ym mhob system, dylech godi ieir dodwy'n syth i'r modiwl cludo. Daliwch nhw trwy afael ynddyn nhw am eu corff neu gerfydd y ddwy goes. Peidiwch â tharo pethau caled, yn enwedig pan fydd yr iâr yn fflapio'i hadenydd. Peidiwch â chario ieir gerfydd eu hadenydd, eu pennau na'u gyddfau. Bydd faint o ieir sy'n cael eu cario yn dibynnu ar faint yr iâr a gallu'r sawl sy'n eu cario, ond rhaid peidio â chario mwy na 3 ym mhob llaw. Peidiwch â'u cario ymhellach nag sydd raid e.e. dewch â'r crât cludo mor agos ag y medrwyd at yr ieir.
78. Pan fydd yr ieir yn y cratiau, gofaliwch eu bod yn ddiogel rhag tywydd drwg a rhag gwres ac oerfel mawr. Peidiwch â gadael iddyn nhw ordwymo (mae anadlu trwm

am amser hir yn arwydd ohono) trwy eu gadael mewn cratiau yn llygad yr haul. Gofalwch fod digon o lif aer i'r ieir bob amser.

79. Wrth lwytho a dadlwytho cratiau ar gerbydau, a'u cludo, cymerwch ofal rhag anafu neu gleisio'r ieir.
80. Os oes ieir nad ydyn nhw'n ffit i deithio am eu bod yn dost/sâl, wedi'u hanafu, yn fusgrell neu'n flinedig, dylen nhw gael sylw milfeddyg ar unwaith neu eu lladd heb greulondeb ar y fferm yn unol â Threfniadau Safonol Rheoliadau Lles Anifeiliaid adeg eu Lladd (Cymru) 2014.
81. Dylai fod gennych gynllun wrth gefn ar gyfer damweiniau traffig ffyrdd. Dylai'r holl staff wybod eu rolau a'u cyfrifoldebau pe bai damwain yn digwydd ar y ffordd a dylai fod gennych ddigon o staff wrth law i helpu i ddal yr adar neu eu lladd heb greulondeb os oes angen. Dylai'r cynllun wrth gefn gynnwys rhifau argyfwng a rhifau cyswllt lleol.

CONSULTATION

Atodiad 1 - Darpariaethau Cyfreithiol ar gyfer Wyau a Chywion

At ddiben labelu yn unig, mae Rheoliad y Comisiwn (EC) rhif 589/2008 fel y'i diwygiwyd, sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer rhoi Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 1234/2007 ar waith mewn cysylltiad â marcio safonau wyau, yn cynnwys y gofynion sylfaenol canlynol ar gyfer systemau cynhyrchu ar gyfer dulliau ffermio wyau amrywiol.

1. 'Free-range eggs' must be produced in systems of production which satisfy at least the conditions specified in Article 4 of Council Directive 1999/74/EC.

In particular, the following conditions must be satisfied:

(a) hens must have continuous daytime access to open-air runs. However, this requirement does not prevent a producer from restricting access for a limited period of time in the morning hours in accordance with usual good farming practice, including good animal husbandry practice.

In case of other restrictions, including veterinary restrictions, adopted under Community law to protect public and animal health, having the effect of restricting access of hens to open-air runs, eggs may continue to be marketed as 'free-range eggs' for the duration of the restriction, but under no circumstances for more than 12 weeks;

(b) open-air runs to which hens have access must be mainly covered with vegetation and not be used for other purposes except for orchards, woodland and livestock grazing if the latter is authorised by the competent authorities;

(c) the maximum stocking density of open-air runs must not be greater than 2 500 hens per hectare of ground available to the hens or one hen per 4 m² at all times. However, where at least 10 m² per hen is available and where rotation is practised and hens are given even access to the whole area over the flock's life, each paddock used must at any time assure at least 2,5 m² per hen;

(d) open-air runs must not extend beyond a radius of 150 m from the nearest pophole of the building. However, an extension of up to 350 m from the nearest pophole of the building is permissible provided that a sufficient number of shelters as referred to in Article 4(1)(3)(b)(ii) of Directive 1999/74/EC are evenly distributed throughout the whole open-air run with at least four shelters per hectare.

2. 'Barn eggs' must be produced in systems of production which satisfy at least the conditions specified in Article 4 of Directive 1999/74/EC.

3. 'Eggs from caged hens' must be produced in systems of production which satisfy at least:

(a) the conditions specified in Article 5 of Directive 1999/74/EC until 31 December 2011; or

(b) the conditions specified in Article 6 of Directive 1999/74/EC.

4. Member States may authorise derogations from points 1 and 2 of this Annex for establishments with fewer than 350 laying hens or rearing breeding laying hens as regards the obligations referred to in the second sentence of points 1(d), 1(e), 2, 3(a)(i) and 3(b)(i) of Article 4(1) of Directive 1999/74/EC.

Atodiad 2 - Canllaw

Canllaw Cyngor Diwydiant Wyau Prydain:

<http://www.britisheggindustryCouncil.com/british-lion-code-of-practice/>

Canllaw ar Safonau Marchnata Wyau

www.defra.gov.uk/food-farm/food/food-industry/egg-industry/

Canllaw ar asesu'r risg i ddiogelwch eiddo anifeiliaid a stablau:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/14895/fsra-animals.pdf

Canllawiau ar hyfforddiant crefft gofalu am anifeiliaid:

<http://www.poultrypassport.org/approved-training/>

CONSULTATION

Atodiad 3 - Pigo Pluf

Mae'n bwysig cofio nad yw pigo plu fel arfer yn ymddygiad ymosodol (mae iâr fel arfer yn ymosod ar ben neu wddf iâr arall, nid ar weddill y corff). Yn wir, gallai iâr sy'n ymateb yn ymosodol i gael ei phigo helpu i rwystro pigo niweidiol.

Dylai cynllun ar gyfer lleihau pigo plu roi sylw i'r canlynol:

- Bridiau addas. Mae geneteg yn bwysig o ran pigo plu. Mae'n arfer da dewis straen sydd â thuedd i beidio â phigo.
- Lefelau stocio addas mewn cytiau magu a chytiau dodwy. Mae'n bwysig cofio bod darparu clwydi uwch y llawr, gardd aeaf (feranda) a mannau crwydro tu allan (gan gynnwys unrhyw fesurau i'w hannog i grwydro) yn ddulliau ymarferol o ostwng lefelau stocio ar lawr y cwt a thrwy hynny, lleihau'r risg o bigo plu.
- Annog yr ieir i grwydro a chwilota am fwyd. Os rhoddir digon o gyfleoedd i'r ieir chwilota am fwyd, byddan nhw'n llai tebygol o bigo plu. Darparwch feranda neu ardd aeaf iddyn nhw gael lle i grwydro yn ystod tywydd cas a gall eu hannog i fentro allan i grwydro mewn systemau maes. Gall gorchudd naturiol neu artiffisial dros y man crwydro hefyd eu hannog i grwydro. Byddai amrywio'r llawr e.e. bêls gwellt a chynnig pethau iddyn nhw eu pigo, gan gynnwys rhai bwytdwy, annog yr ieir i chwilota am fwyd.
- Darparu clwydi oddi ar y llawr. Os ydy adar sy'n gorffwys allan o gyrraedd adar sy'n chwilota am fwyd, byddan nhw'n llai tebygol o gael eu pigo.
- Rhowch sylw arbennig i iechyd a lles yr adar pan fyddan nhw'n cyrraedd y fferm ddodwy gan y gall y cyfnod hynny fod yn streslyd i'r adar a'u sbarduno i bigo plu. Ceisiwch greu cyfnod pontio mor esmwyth â phosib gan sicrhau, er enghraifft, nad ydych yn newid eu deiet ar hyn o bryd.
- Yn ogystal â newid esmwyth, dylai dyluniad y cwt magu fod yn debyg i ddyluniad y cwt dodwy. Os bydd cywennod wedi dysgu sut i glwydo neu ddygymod â system aml-haenog yn y cwt magu, byddan nhw'n gallu dygymod â'r newid i gwt dodwy yn well. Bydd rhoi man crwydro iddyn nhw wrth y cwt magu yn eu helpu i gynefino â chrwydro yn y cwt dodwy, yn enwedig yn ystod y dyddiau cyntaf tyngedfennol, gan leihau'r risg o bigo plu.
- Darparwch ddeiet â llawer o brotein ynddo, gan roi sylw arbennig i'r amino-asidau, yn enwedig pan fyddan nhw'n dechrau dodwy. Byddan nhw wedyn ddim yn troi at ieir eraill am fwyd.
- Rheolwch faint mae'r ieir yn magu pwysau, yn enwedig yn y cwt magu. Bydd osgoi unrhyw strès bwyd yn lleihau'r risg o ganibaliaeth.
- Cynllun iechyd da, sy'n cynnwys brechu.
- Hinsawdd da, yn enwedig o ran lefelau llygryddion fel amonia. Mae'n bwysig hefyd gofalu bod y sarn mewn cyflwr da.

- Trwy ddarparu deunydd sych, da sy'n chwalu'n rhwydd i'r ieir ei daflu drostyn nhw eu hunain yn annog ymddygiad naturiol, gwella cyflwr y pluf ac yn lleihau strès.
- Meithrin perthynas dda rhwng yr ieir a phobl. Fel ym mhob peth arall, mae lleihau strès yn lleihau'r risg o bigo plu.
- Safonau uchel o ran gofalu am yr adar gan gynnwys cadw cofnodion. Bydd hyn yn cynnwys archwilio'r pluf a chadw golwg am bigo niweidiol, ac ymateb yn gyflym pan welir achosion.

Mae'n arwydd da iawn o ran iechyd a lles yr ieir os oes ganddynt bigau cyfan ac nad oes pigo niweidiol.

Canllaw ar bigo niweidiol: <http://www.featherwel.org>

CONSULTATION